

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
Nos Iau 19 Ebrill 2018 am 1830

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Mary Hayes

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Mair Owen Pierce.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Mair Jones, Richard Fraser-Williams, Gwen Griffith a Gabrielle Wyn.

2. Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaethau Stryd Cyngor Gwynedd

Daeth Peter i'r cyfarfod i drafod problem baw ci yn yr ardal, yn enwedig yn Mynydd Llandygai. Daeth a llond bocs o fagiau i'r cynghorwyr gael eu rhannu allan yn y gymuned. Trafodwyd bod pris o osod bin newydd yn costio hyd at £450 (bin, postyn, arwydd), ond bod bosib newid biniau presennol am fin aml-bwrpas (sydd yn addas ar gyfer sbwriel cyffredinol a baw ci). Penderfynwyd gwneud cais am fin yn Lôn y Grug, Mynydd Llandygai ac hefyd ar yr hen lôn wrth y clwb rygbi. Diolchwyd i Peter Simpson am fynychu'r cyfarfod.

3. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2018.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

4.1 Llwybr beics pentref Llandygai-adroddwyd bod beicwyr sy'n defnyddio'r Lôn Las sy'n mynd drwy'r pentref, yn mynd a'r wib. Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn ymgynghori gyda Sustrans ynghylch symud yr arwydd, fel bod beicwyr yn defnyddio llwybr arall drwy'r pentref. Dal i ddisgwyl diweddariad gan Gyngor Gwynedd.

4.2 Lloches bws ger Stad Ddiwydiannol Llandygai- angen ei lanhau. Y Cyng. Dafydd Owen am ofyn wrth ein contractwr i'w wneud.

4.3 Llwybr 59, Carreg Y Fedwen-y Cyng. Dafydd Owen am ofyn wrth ein contractwr i wneud y gwaith.

- 4.4** Adroddwyd bod angen gosod bin halen yn Bro Syr Ifor, gan nad oes un yno ar hyn o bryd. Y Cyng. Dafydd Owen i gyfarfod swyddog Cyngor Gwynedd ar y safle i gadarnhau'r lleoliad.
- 4.5** Llochesi bws Mynydd Llandygai a Ffordd Tan Rhiw-angen eu paentio. Y Clerc i gysylltu â Bradites i holi am baent.
- 4.6** Gwasanaeth Ieuenctid-penderfynwyd holi am fwy o wybodaeth ynglŷn a'r gwasanaeth symudol arfaethedig. Dim ymateb hyd yn hyn.
- 4.7** Canolfan Tregarth-derbyniwyd adroddiad o gyflwr yr adeilad ac adroddiad draeni gan Gyngor Gwynedd. Angen anfon ein sylwadau ar yr arolwg draeni. Hefyd y Clerc i wneud ymholiadau gyda Un Llais Cymru am wasanaeth cyfreithiol ynghyd â hyn.
- 4.8** Tynal Tywyll-y goleuadau/lampau heb gael eu newid. Penderfynwyd holi am bris i roi rhwyll ar yr holl oleuadau yn y dwnel. Dim ymateb wedi dod hyd yn hyn. Codwyd pryderon iechyd a diogelwch gan bod y dwnel yn dywyll a bod yna wydr ar y llawr. Y clerc i holi Cyngor Gwynedd am eu hamserlen i ymgymryd â'r gwaith.

5. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2018'

Cyflwynwyd: llythyr gan Rheolwr Canolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru Llanberis-cais cynllunio ar gyfer ail-ddatblygu'r ganolfan. Penderfynwyd bydd y cynghorwyr yn ymateb fel unigolion.

Cyflwynwyd: llythyr gan Rheolwr Llyfrgelloedd Gwynedd ynglŷn a bwriad Partneriaeth Ogwen i gymryd perchnogaeth drwy brydles o llyfrgell Bethesda. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gefnogi a cyd-weithio gyda'r Bartneriaeth.

Cyflwynwyd: llythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri-Cynllun Datblygu Lleol adolygedig 2016-2031. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd: e-bost gan Ysgol Bodfeurig-cais am rodd tuag at costau teithio yn dilyn eu llwyddiant yn yr Eisteddfod. Penderfynwyd rhoi £100.

Cyflwynwyd: e-bost gan y Cyng. Richard Fraser-Williams- ynglŷn a materion/cwynion Mynydd Llandygai.

- i)** dyfynbris a dyluniadau am sticeri 'derbyn bagiau baw ci yma'. Penderfynwyd archebu sticeri
- ii)** giât a wal Moelyci angen sylw. Y Clerc i anfon y llun at Gyngor Gwynedd.
- iii)** ceir yn gyrru yn gyflym ar Lôn y Grug tuag at y goedwig-y Clerc i hysbysu'r heddlu.

Cyflwynwyd: lythyr gan Partneriaeth Ogwen-amcan o'r cyfraniad blynyddol tuag at costau rhedeg y llyfrgell. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus gyda'r costau.

6.Gwaith y mis

- 6.1** Angen dechrau ar y gwaith llwybrau, a dechrau hefo llwybr rhif 59.
- 6.2** Cyfraniad mynwentydd-i'w roi ar yr agenda mis nesaf.
- 6.3** Tarmac yn codi yn Bro Syr Ifor-y Cyng. Dafydd Owen am gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.
- 6.4** Tyllau yn y ffordd yn Cerrig Llwydion-wedi cael eu llenwi.

6.5 St Ann's-'potholes' angen eu llenwi.

7. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth – adroddwyd bod gwaith trydanol wedi ei ymgymryd gan Jones & Whitehead-goleuadau yn y neuadd a peiriannau sychu dwylo i'r Ysgol Feithrin ac yn y 3 toiled.

8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

8.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mawrth.

8.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

9. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

Partneriaeth Ogwen	£5641.30
Un Llais Cymru-aelodaeth	£323.00
Cyngor Gwynedd-Canolfan Tregarth	£5.00

10. Canolfan Tregarth

Penderfynwyd anfon copi o'r brydles at Un Llais Cymru am gyngor cyfreithiol. Yn dilyn astudio'r adroddiad draeni, doedd dim nodyn yn cyfeirio at y draen SWMH9-SWMH3, felly penderfynwyd holi am y wybodaeth yma. Mae gan y Cyngor bryderon mawr am arwyddo'r brydles sydd hefyd yn golygu cymryd cyfrifoldeb am y draeni gan bod dŵr yn llifo o'r briffordd i lawr at y ganolfan a'r hen rheilffordd.

11. Cynnal tiroedd 2018-19

Cafwyd trafodaeth am y prisiau a'r mapiau o'r ardal, oedd yn aneglur. Penderfynwyd holi am bris toriadau ychwanegol i'r caeau chwarae yn unig.

12. Bwrlwm Haf Dyffryn Ogwen

Adroddwyd am y digwyddiad sy'n digwydd 7fed Gorffennaf ar dir Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd y Cyngor yn hapus i gefnogi a hysbysebu'r digwyddiad.

13. Sedd wag Ward Mynydd Llandygai

Dim diddordeb hyd yn hyn.

14. Penderfyniadau Cynllunio

C17/0903/16/LL

Carreg y Fedwen, Sling, Tregarth
Creu canolfan ymchwil a menter
iachâd cysegredig gan gynnwys codi
pedwar adeilad newydd, creu
meysydd parcio a chodi wal ffin 2.3m
o uchder (cais diwygiedig i gais
dynnwyd yn ôl - C16/1158/16/LL)
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

**Adroddwyd bod y Pwyllgor
Cynllunio am ymweld a'r safle.**

C17/1266/16/LL

Tir yn Bryn Cul, Tal Gae, Tregarth
Gosod mast telathrebu 17.5 metr o
uchder gan gynnwys 3 antena a 2
ddysgl darlledu ynghyd a 2 gaban offer
a 1 cabinet mesurydd a gwaith atodol
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd.
Adroddwyd bod y Pwyllgor
Cynllunio am ail- edrych ar y cais.

C17/1237/11/LL
C17/1236/11/CR

Angorfa'r Prince Madog, Port Penrhyn,
Bangor
Gwaith tynnu strwythur codi cychod
presennol a chodi strwythur newydd
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd.

C18/0123/16/TC

Spring Cottage, Carreg y Fedwen, Sling
Cais tystysgrif cyfreithloni defnydd fel
annedd breswyl Defnydd Dosbarth C3
Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0122/16/LL

6 Craig y Pandy, Tregarth, Bangor
Estyniad unllawr ac estyniad deulawr
yn yr ochr ac yn y cefn.
Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

15. Ceisiadau Cynllunio

C18/0218/16/LL

Tŷ'r Ysgol, Tregarth, Bangor
Codi tŷ deulawr, llecynnau parcio a
thirlunio
Penderfyniad: Cefnogi

16. Unrhyw fater brys arall

Dim i'w drafod.